# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cwmni Ymddiriedolwyr Glyn Nest Cyfyngedig**

**Cartref Preswyl Glyn Nest**
**Stryd Ebeneser**
**Castellnewydd Emlyn**
**SA38 9BW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cwmni Ymddiriedolwyr Glyn Nest Cyfyngedig

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cwmni Ymddiriedolwyr Glyn Nest Cyfyngedig |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Medi 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus yng nghartref Glyn Nest. Mae'r awyrgylch hamddenol yn helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus. Caiff pob unigolyn ei annog i wneud ei benderfyniadau ei hun am sut i dreulio ei amser. Mae'r bobl yn byw bywydau hapus a boddhaus ac maent yn gwneud amrywiaeth eang o bethau sy'n bwysig iddynt.

Mae pob un o'r cyflogeion yn dangos dealltwriaeth dda o'r bobl yn y cartref ac mae'r cofnodion gofal yn disgrifio sut y dylai'r gweithwyr gofal ddiwallu anghenion pob unigolyn yn glir. Mae'r tîm o staff brwdfrydig eisiau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan lawn ym mhob un o'r trafodaethau am eu cymorth. Mae'r gweithwyr gofal yn dweud eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr ac uwch-aelodau eraill o'r staff. Mae'r cyfathrebu da yn amlwg, a chaiff ansawdd y gofal y mae'r bobl yn ei gael ei fonitro mewn modd cadarn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i chwarae piano ac i siarad â'r bobl am y gwasanaeth y maent yn ei gael.

## Llesiant

Mae gan y bobl yng Nglyn Nest gymaint o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ag y maent yn dymuno ei gael, ac maent yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn gwahodd y bobl i gymryd rhan yn eu trefniadau cymorth: ceir cyfarfodydd tŷ rheolaidd, ac mae'r rheolwr yn sicrhau bod pob unigolyn yn cwrdd ag aelod o'r staff yn rheolaidd i drafod unrhyw beth sy'n eu poeni. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys dewisiadau personol a chefndir y bobl maent yn eu disgrifio. Mae'r bobl yn cael canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth wrth gyrraedd, sy'n rhoi manylion am yr hyn y gallant ei ddisgwyl, yn ogystal â manylion am y broses gwyno pe bai angen iddynt ei defnyddio. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"Oh no, there's absolutely nothing to complain about here. I'm so glad I came."* Mae'r bobl yn personoli eu hamgylchedd yn ôl eu diddordebau, eu chwaeth a'u hobïau. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da â'r bobl ac maent yn gweithio ochr yn ochr â nhw mewn ffyrdd cadarnhaol. Gwelsom sawl sgwrs llawn hiwmor drwy gydol y dydd.

Mae'r bobl yn gallu ymlacio, yn gyfforddus ac yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Mae pob unigolyn mor egnïol ag y mae'n dymuno bod. Mae rhai o'r bobl dim ond yn ymuno â'r gwasanaethau dydd Sul a rhai o ddigwyddiadau eraill: dywedodd un o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"The staff are very good. If I decide to go downstairs, they get me up and into the lift in a jiffy. It's all very efficient."* Mae trefnwr gweithgareddau yn cynnig nifer o opsiynau ar gyfer amser hamdden y bobl. Er enghraifft, te prynhawn, sesiynau Bingo, prynhawniau ffilm, coffi a thecawê sglodion yn y dref, ymweliadau â'r eglwys a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr eglwys leol. Mae'r bobl hefyd wedi ymweld â Folly Farm a Pharc Thema Oakwood i gael profiad unigryw o'r Nadolig. Mae plant yr ysgol leol yn ymweld, yn ogystal â chi 'PAT' direidus ('Anifeiliaid anwes fel Therapi'): adroddodd un unigolyn stori hir am y ffordd y gwnaeth y ci ddwyn ei hosan un diwrnod a rhedeg o gwmpas y cartref ag e! Anogir gweithgareddau tymhorol hefyd: ar hyn o bryd, mae pawb yn gwneud hetiau'r Pasg ar gyfer cystadleuaeth sy'n dod i'r cartref. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus bod eu teuluoedd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan lle y dymunant. Gwelsom hefyd fod y gweithgareddau hamdden hyn yn cael eu cofnodi yng nghofnodion gofal y bobl fel gweithgareddau y maent yn eu mwynhau.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau cywir ar gyfer y ffordd y mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth y bobl, sy'n ystyried amrywiaeth o wybodaeth i sicrhau y gallant ddiwallu eu hanghenion. Mae cofnodion gofal manwl yn disgrifio cymorth pob unigolyn, gan gynnwys gofal y geg, trefniadau codi a chario, gwybodaeth benodol am faeth ac unrhyw ddymuniadau diwedd oes. Ar ben hynny, mae'r asesiadau o iechyd corfforol a meddyliol pob unigolyn yn helpu i gynnal annibyniaeth y bobl. Caiff cofnodion dyddiol eu cwblhau gan ddefnyddio terminoleg dda, sy'n rhoi cipolwg ar fywyd o ddydd i ddydd yn y cartref. Gwnaethom hefyd siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld, a oedd yn canmol y cartref a'r tîm o staff yn fawr.

Mae'r gweithwyr gofal yn gefnogol ac yn ymgysylltu â'r bobl mewn ffyrdd cadarnhaol, i'w hannog i gadw'n bositif ac yn iach. Dywed y bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel, a bod y cyflogeion yn amddiffyn eu preifatrwydd a'u gwybodaeth bersonol bob amser. Mae'r gweithwyr gofal wedi bod drwy broses recriwtio drylwyr y darparwr. Mae uwch-aelodau o'r staff yn goruchwylio'r gweithwyr gofal er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl fel y dylent. Mae'r holl weithwyr gofal yn cael cymorth a hyfforddiant a gallant gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau er mwyn deall eu cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl y maent yn eu cefnogi.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r cofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i iechyd a llesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel ac annibynnol â phosibl.
Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn mynd at unrhyw uwch-aelod o'r staff, ond byddent hefyd yn cysylltu ag asiantaethau allanol fel y swyddfa ddiogelu leol pe byddent o'r farn bod angen iddynt wneud hynny.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r mwyafrif o'r bobl yn y cartref a'r tîm o staff yn siarad Cymraeg. Er mai Cymraeg yw iaith gyntaf rhai o'r bobl, nid Cymraeg yn unig maent yn siarad. Ond mae'r rheolwr wedi sicrhau bod datganiad o ddiben y cartref a'r canllaw ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog fel na fydd angen i'r bobl ofyn amdanynt pe byddain hynny'n codi.

## Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael cymorth mewn amgylchedd da. Mae'r cartref yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân ac wedi'i leoli yng nghanol tref fach mewn ardal wledig yng Nghymru. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus ac y gallant ddewis ardaloedd gwahanol i'w defnyddio. Mae ardaloedd cymunedol amrywiol ar gael, yn ogystal â thiroedd a gasebo lle y gall y bobl dreulio amser yn ymlacio gyda ffrindiau a pherthnasau. Mae pob ystafell yn fawr ac wedi'i phersonoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r unigolyn, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a darnau o gelfi.

Mae gweithdrefnau da ar waith ar gyfer rheoli heintiau. Mae'r allanfeydd tân yn glir o rwystrau ac mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos tystiolaeth o brofion wythnosol ar y larwm tân. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002 ac mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd.

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Dim ond aelodau awdurdodedig o'r tîm staff a all weld y cofnodion gofal. Caiff cofnodion personél cyflogeion a gwybodaeth bersonol arall, megis cofnodion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, eu storio'n ddiogel yn swyddfa'r rheolwr. Gall y bobl nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid adael y safle yn annibynnol pryd bynnag y dymunant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bawb sy'n cael cymorth. Mae proses dda ar waith gan y rheolwr i oruchwylio'r gwasanaeth ac mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd, gan siarad yn anffurfiol â'r bobl wrth chwarae'r piano, ac yn cael amser da ar y cyfan. Caiff trafodaethau rheolaidd eu cynnal â'r bobl yn y cartref, eu teuluoedd a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen.

Mae'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant hanfodol diweddaraf, ynghyd â hyfforddiant penodol sy'n berthnasol i'r cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn dweud bod hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o'u rolau a'u cyfrifoldebau, yn ogystal â'r ffyrdd gorau o gefnogi'r bobl. Caiff pob agwedd ar y gwasanaeth ei chrynhoi fel rhan o ymweliadau gan yr Unigolyn Cyfrifol â'r cartref bob tri mis ac o fewn adroddiadau ar ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r cyflogeion yn trafod unrhyw faterion y maent am eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio cyfrinachol a gynhelir bob tri mis.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Mae craidd bach o weithwyr gofal sydd wedi gweithio i'r darparwr ers sawl blwyddyn, sy'n golygu eu bod yn gyfarwydd iawn i'r bobl yn y cartref. Fodd bynnag, mae'r anawsterau recriwtio lleol yn yr ardal wledig hon wedi gorfodi'r darparwr i ddefnyddio rhai staff asiantaeth. Fodd bynnag, caiff yr aelodau hyn o staff eu trefnu mewn bloc am wythnosau ar y tro, fel eu bod yn gyfarwydd i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.Mae rhaglen sefydlu'r staff yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu unigol a ‘Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.’

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/05/2024